

**GWEITHDY GORFODI YM MAES ADEILADAU RHESTREDIG*****Crynodeb o'r prif Hysbysiadau Gorfodi sydd ar gael***

| | |
|--|--|
| <p>Hysbysiad Gwaith Brys</p> <p>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, isadrannau 54 a 55</p> | <p>Mae Adran 54 yn nodi y caiff awdurdod lleol (ALI) wneud unrhyw waith yr ymddengys ei fod yn angenrheidiol ar frys er mwyn cynnal a chadw adeilad rhestredig.</p> <p>Mae'n rhaid i'r ALI roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r perchennog o'i fwriad i wneud y gwaith. Mae'n rhaid i'r Hysbysiad ddisgrifio'n glir y gwaith y bwriedir ei wneud, ac mae'n rhaid ei gyfyngu i waith sy'n hanfodol i gadw'r adeilad rhestredig yn ddiogel rhag gwynt a thywydd garw a rhag dymchweliad a fandaliaeth. Diwygiwyd adran 54 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu gwaith brys ar adeiladau sydd wedi eu meddiannu ac adeiladau nad ydynt wedi eu meddiannu, ar yr amod nad yw'n ymyrryd yn afresymol â defnydd preswyl.</p> <p>Os nad yw'r perchennog yn gweithredu yn sgil cyflwyniad Hysbysiad Gwaith Brys, gall yr ALI wneud y gwaith a chyflwyno Hysbysiad adran 55 i adennill costau rhesymol. Caiff perchennog apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn Hysbysiad adran 55 ar y sail bod y gwaith yn ddiangen neu fod y costau yn afresymol.</p> <p>Bydd unrhyw gostau sy'n weddill ar gyfer gwaith brys yn dod yn bridiant tir lleol ac ychwanegir llog ar gyfradd sylfaenol Banc Lloegr + 2% nes iddynt gael eu hadennill gan yr ALI. Gall yr awdurdod orfodi'r pridiant hwn drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys penodi derbynydd neu werthiant gorfodol.</p> |
| <p>Hysbysiad Atgyweirio</p> <p>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 48</p> | <p>Mae Hysbysiad Atgyweirio yn nodi gwaith sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn cadw adeilad rhestredig yn briodol — h.y. atal dirywiad pellach adeilad sydd mewn perygl.</p> <p>Os, ar ôl dim llai na 2 fis, nad oes camau rhesymol wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwaith, yna dewis yr ALI yw cyflwyno</p> |



| | |
|--|--|
| | Gorchymyn Prynu Gorfodol. |
| Gorchymyn Prynu Gorfodol Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 47 | Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gadarnhau Gorchymyn Prynu Gorfodol, ac maent yn annhebygol o wneud hynny oni bai bod yr ALL sy'n caffael yr eiddo yn gallu dangos bod ganddynt gynllun ymarferol a chyraeddadwy i ddiogelu'r adeilad rhestredig. |
| Hysbysiad Adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Mynd i'r afael ag effaith andwyol ar amwynder sy'n deillio o gyflwr tir neu eiddo. Mae'r Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau o fewn amserlen benodol. Mae methu â chydymffurfio yn drosedd a gall arwain at erlyniad (adran 216). Hefyd, gall yr ALL ymgymryd â'r gwaith ac adennill y costau o dan adran 219. |
| Hysbysiad Gorfodaeth ar gyfer Adeilad Rhestredig Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 38 | Yn ymwneud â gwaith anawdurdodedig. Mae'n rhaid i'r Hysbysiad nodi'r tramgwydd honedig a'r camau sy'n angenrheidiol i adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol neu, os nad yw hyn yn bosibl, y camau sy'n angenrheidiol i liniaru effaith y gwaith. Pan fo'r adeilad wedi ei gollu, ei newid neu ei ddifrodi yn ddiwrthdro, gall yr ALL erlyn y tramgwydd troseddol o dan isadrannau 9 a 59. Mae'n bosibl y dylanwadir ar lefel y ddirwy gan faint y budd ariannol a gafwyd drwy gynnal y gwaith. |
| Hysbysiadau stop dros dro Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 44B-44D | Gellir defnyddio'r rhain pan mae'n ymddangos bod gwaith wedi ei wneud (ac yn mynd rhagddo) a phan mae'r ALL yn barnu y dylai'r gwaith ddod i ben ar unwaith. Daw'r hysbysiad i rym pan gaiff ei arddangos ar yr adeilad ac felly gellir ei gyflwyno'n gyflym iawn. Dim ond am 28 diwrnod y mae'n para, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'n rhaid i'r ALL geisio penderfyniad neu gymryd camau gorfodi eraill (megis gorchymyn llys neu Hysbysiad Gorfodaeth ar gyfer Adeilad Rhestredig o dan adran 38). |



HOLLAND HERITAGE

Gorchmynion Llys

**Deddf Cynllunio
(Adeiladau Rhestredig
ac Ardaloedd
Cadwraeth) 1990,
adran 44A**

Gellir eu defnyddio pan fo ALLau yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer atal unrhyw doriad i adran 9(1) neu (2) sydd ar fin cael ei wneud.